



**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

**Dyfed-Powys**

# **Y Gorchymyn Protocol Plismona 2011**

**Chwarter 1 2020/21 Crynodeb o Adroddiad Perfformiad**

## Cyflwyniad

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn sefydlu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu o fewn pobl ardal Heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan roi cyfrifoldeb iddynt dros y plismona cyfan yn eu hardal. Mae gofyn iddynt ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif dros gyflenwad gweithredol y plismona, gan gynnwys y Gofyniad Plismona Strategol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Mae Adran 70 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy'n gymwys i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu.

Amlinella'r protocol hwn rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n gysylltiedig â'r berthynas bedair rhan, sef y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Prif Gwnstabl, Panel Heddlu a Throseddu a'r Ysgrifennydd Cartref.

Bydd pob un o'r grwpiau yn cadw at y 7 egwyddor a amlinellir yn y Safonau Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn Egwyddorion Nolan.

Mae sefydlu a chynnal perthnasau gwaith effeithiol gan y grwpiau hyn yn hanfodol. Disgwylir y bydd egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, didwylledd ac ymddiriedaeth yn sail i'r berthynas rhyngddynt a bydd pob grŵp yn gwneud popeth o fewn eu gallu i wneud i'r berthynas weithio.

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi datblygu gwiriad iechyd sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd a phŵer cyfreithiol drostynt. Mae hyn gyfwerth â 21 maes sydd wedi'u torri i lawr i 57 ardal weithredu yn ôl amryw feysydd busnes o fewn SCHTh, y mae 4 ohonynt wedi'u nodi'n barhaol yn Amherthnasol sy'n gadael 53 o feysydd gweithredu. Cwblheir y rhain yn chwarterol i ddangos cynnydd parhaus.

Mae pob adran yn derbyn sgôr CAG i dynnu sylw at unrhyw feysydd pryder.

**Gwyrdd** – Cydymffurfio'n llawn, dim gwaith ychwanegol yn angenrheidiol

**Ambr** – Cydymffurfio'n rhannol, ychydig o waith ychwanegol yn angenrheidiol

**Coch** – Ddim yn cydymffurfio, nid yw'r ddyletswydd yn cael ei bodloni ar hyn o bryd

Mae crynodeb o'r gwiriad iechyd ar gael i'r Panel Heddlu a Throseddu ar ffurf adroddiad, gan gynnwys Crynodeb Gweithredol o'r chwarter diwethaf.

## Crynodeb Gweithredol


Mae'r adroddiad a ganlyn yn ymdrin â chyfnod adrodd Ch4 y flwyddyn ariannol 2020/21 (Ebrill/Mai/Mehefin 2020)

### Cymhariaeth Statws CAG

#### Crynodeb:


O'r 53 maes gweithredu:

Coch	0	0%
Ambr	12	23%
Gwyrdd	41	77%



Does **DIM UN** o'r meysydd gweithredu wedi'u marcio'n goch.

Bu gostyngiad yn nifer y meysydd sydd wedi'u marcio'n ambr o 18 i 12. Mae hyn yn ymwneud â rhai meysydd yn cael eu heffeithio mwy gan yr haint coronafeirws nag eraill a mesurau'n cael eu rhoi mewn grym yn ystod y chwarter. Mae arweinwyr busnes hefyd yn adolygu statws CAG eu meysydd yn agosach.



Mae pob maes yn cydymffurfio'n rhannol o leiaf, gyda rhai categorïau'n sefyll allan fel rhai sydd angen mwy o sylw oherwydd y canran o ambr o fewn y categori:

17h - Ymrwymo i gytundebau cydweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau eraill, a chyrrff a phartneriaid plismona eraill - (2/3) 67% ambr

17i - Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i roi dymuniadau a dyheadau cyfiawn y cyhoedd ar waith - (3/5) 60% ambr

20a - Cyflenwi diogelwch cymunedol a gostwng trosedd - (2/2) 100% ambr

Dyletswydd	Rhif	Camau sy'n Ofynnol	Statws CAG	Diweddariad Cynnydd Ch1 (Ebr/Mai/Mehefin 2020)
Gosod cyfeiriad strategol ac amcanion yr Heddlu trwy'r Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n gorfod ystyried y Gofyniad Plismona Strategol	17a	Datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Rhan 1; Pennod 3; 7)		Datblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddu a'i lansio'r wythnos yn cychwyn 27 Mawrth 2017. Yn 2018, penderfynodd CHTh bod y Cynllun digon eang ei fod dal yn berthnasol ar gyfer hyd tymor y Cynllun. Yn dilyn y cyhoeddiad ynglŷn â gohio'r etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, ceisiwyd a chafwyd cymeradwyaeth y Panel Heddlu a Throseddu i estyn hyd tymor y Cynllun Heddlu a Throseddu o flwyddyn arall. 21.07.2020 - Cymeradwyodd Tîm Gweithredol SCHTh amserlen waith ar gyfer datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu nesaf.
		Datblygu Cynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddu i gefnogi cyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu		Datblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddu a'i lansio'r wythnos yn cychwyn 27 Mawrth 2017 ac mae'n cael ei gefnogi gan Gynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddu. Mae cyfarfodydd Bwrdd Plismona'n canolbwyntio ar bob un o ganlyniadau arfaethedig y Cynllun er mwyn monitro cyflenwi'r blaenoriaethau. Mae'r cynllun wedi'i estyn yn ffurfiol i 2022 yn unol â'r dyddiad newydd ar gyfer etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Mae trafodaethau cychwynnol gyda Phrif Swyddogion wedi nodi y byddent yn cefnogi tynnu tîm at ei gilydd ar y cyd â SCHTh i ddatblygu Cynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddu er mwyn cefnogi cyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd yn 2022.
		Adolygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu i sicrhau ei fod yn parhau yn addas i'r diben		Mae'r Panel Heddlu a Throseddu wedi cynnal adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throseddu; gan geisio barnau gan Awdurdodau Lleol ar p'un a yw'r Cynllun yn parhau yn addas i'r diben ac a yw'n cynnwys yn briodol natur y bygythiadau i'n cymunedau. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu ar 15 Chwefror 2019, pan ddaethpwyd i'r casgliad bod y Cynllun yn ddigon eang iddo barhau yn addas i'r diben. Ym mis Mawrth 2020, cafwyd cymeradwyaeth y Panel Heddlu a Throseddu i estyn y Cynllun flwyddyn arall, yn unol â'r dyddiad newydd ar gyfer etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.
Craffu, cefnogi a herio perfformiad cyffredinol yr heddlu gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o fewn y Cynllun	17b	Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i gefnogi craffu effeithiol		Mae trefniadau craffu ffurfiol mewn grym ac yn parhau yn ystod yr argyfwng COVID-19. Ar ben hynny, cynhwysir cynrychiolwyr CHTh yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer COVID-19, gan sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth lawn am y pwysau sydd ar y sefydliad a'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith.
		Datblygu adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol		Diweddariwyd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn ystod y chwarter diwethaf.
		Sefydlu amserlen flaengar o weithgareddau ar sail risg i gefnogi gwelliannau ym mherfformiad yr Heddlu		Gohiriwyd gweithgarwch craffu dros dro oherwydd y pandemig. Dylai'r panel craffu ar warediadau tu allan i'r llys fod wedi cwrrd ar 20/4, ond canslwyd y cyfarfod. Cyfarfu'r Panel Sicrhau Ansawdd yn ystod y cyfnod hwn, ond cyfarfodydd adolygu / cynllunio oeddent, ac ni chynhyrchwyd unrhyw adroddiadau craffu.

		Sicrhau bod barnau'r cyhoedd yn cael eu cynrychioli yng ngwaith craffu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu		O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, mae SCHTh wedi gwneud pob ymdrech i gadw nifer y gofynion ar yr Heddlu'n isel er mwyn cefnogi eu ffocws ar reoli'r ymateb brys. Yn hytrach, mae craffu wedi digwydd ar ffurf sicrwydd am allu'r Heddlu i ymateb i'r sefyllfa a dychwelyd i fusnes fel arfer. Mae SCHTh wedi monitro barn a phryderon y cyhoedd yn ofalus drwy gwynion/anfodlonrwydd, monitro cyfryngau cymdeithasol a data arolygon cyhoeddus cenedlaethol a ryddhawyd. Mae hyn, ar y cyd â monitro data perfformiad yr Heddlu'n wythnosol, wedi galluogi CHTh i ganolbwyntio ar y materion mwyaf perthnasol i ddal y PG i gyfrif arnynt, yn ogystal â chefnogi ymdrechion yr Heddlu drwy sicrhau'r cyhoedd ei fod yn cynnal goruchwyliaeth o'r ffordd y mae'r Heddlu'n cyflenwi gwasanaeth.
		Trosolwg a gweithrediad ar argymhellion arolygiaethau allanol		Mae AHM wedi atal eu cyhoeddiadau o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws. Fodd bynnag, ymatebodd CHTh i Alwad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref am Dystiolaeth o barodrwydd y Swyddfa Gartref ar gyfer COVID-19.
Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff yr Heddlu	17c	Datblygu fframwaith a strwythur perfformiad sy'n caniatáu dealltwriaeth gynyddol o ganlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu		Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, yn 2018, datblygodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wiriad iechyd sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd a phŵer cyfreithiol drostynt. Mae'r gwiriad iechyd nawr yn cael ei wirio bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod dal yn berthnasol ac yn rhoi cyfle i arweinwyr busnes adlewyrchu ar gofnodion blaenorol a newid adrodd yn ôl yr angen. Mae Fersiwn 3 wedi'i ryddhau yn awr ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.
		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol mewn grym, gan gynnwys Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, sef cyfarfod cyhoeddus lle mae CHTh yn dal y PG i gyfrif am berfformiad yr Heddlu. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Plismona bob 3 wythnos sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae eitemau sefydlog ar yr agenda'n cynnwys Cyllid ac AD Strategol. Mae trefniadau llywodraethu'n parhau yn ystod yr argyfwng COVID-19, gyda ffocws cryf ar barodrwydd sefydliadol ac effaith COVID-19
		Adolygiad Datblygiad Proffesiynol y Prif Gwnstabl		Rhoddydd llythyr ffurfiol yn rhoi manylion amcanion ar gyfer 2019/20 i'r Prif Gwnstabl ym mis Ebrill 2019. Mae trafodaethau wedi cychwyn mewn perthynas ag amcanion 2020/21.
Penderfynu ar y gyllideb, neilltuo asedau ac arian i'r Prif Gwnstabl; a gosod y praesept ar gyfer ardal yr Heddlu	17d	Hysbysu penderfyniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn perthynas â'r praesept		Parhaodd gwaith adolygu manwl yn ystod 2019/20 gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r CHTh er mwyn hysbysu ei ystyriaethau mewn perthynas â'r praesept. Roedd hyn yn cynnwys nifer o drafodaethau gyda Phrif Swyddogion a seminar lle'r oedd y CHTh, aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio ac aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu'n bresennol. Yn y seminar, soniodd y PG a'r CA am sefyllfa gyfredol yr heddlu a'r heriau disgwylidiedig ar gyfer y blynyddoedd i ddod, a arweiniodd at ddatblygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 20/21-25/26, y Strategaeth Gyfalaf, y Strategaeth Rheoli Trysorlys a Chronfeydd Wrth Gefn. Cefnogwyd cynnig CHTh ar gyfer praesept 2020/21 yn unfrydol gan y Panel Heddlu a Throseddu.
		Gosod y cynllun ariannol tymor Canolig		Cafodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ei osod a'i ystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Chwefror 2020 a'i gefnogi'n unfrydol gan yr aelodau Panel.

		Ariannu rhaglen gyfalaf i roi asedau priodol i'r heddlu i gyflenwi gwasanaethau plismona effeithiol		Gwaith manwl wedi'i gyflawni yn 2019/20 i ystyried a datblygu rhaglen gyfalaf tymor hirach (10 mlynedd) a oedd yn ffurfio rhan o'r cynllun ariannol tymor canolig, y Strategaeth Gyfalaf a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 20/21. Ystyriodd y Panel Heddlu a Throseddau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ym mis Chwefror 2020. Cefnogwyd y cynllun yn unfrydol gan yr aelodau.
Penodi'r Prif Gwnstabl	17e	Penodi'r Prif Gwnstabl		Mark Collins wedi'i benodi'n Brif Gwnstabl o 18 Rhagfyr 2016 ar gytundeb tymor penodol o 5 mlynedd
Diswyddo'r Prif Gwnstabl	17f	Dilyn proses a amlinellir yn Rhan 2 Atodlen 8 i Ddeddf 2011 a rheoliadau a wnaed o dan Adran 50 Deddf yr Heddlu 1996(a)		
Cynnal heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer ardal yr heddlu	17g	Sicrhau Gwerth am Arian		Mae cyfrifoldebau a threfniadau ar gyfer ymdrechu i gael Gwerth am Arian wedi'u gwreiddio drwyddi draw'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol gydag Archwiliad Mewnol ac Allanol yn ceisio sicrhwydd bod trefniadau priodol wedi'u sefydlu i sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn nefnydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl o adnoddau. Yn ogystal, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad gwerth am arian penodol ar drefniadau cydweithio, sydd wedi gwneud nifer o argymhellion. Mae'r PSA yn cymryd rhan yn nifer o gyfarfodydd llywodraethu'r heddlu sydd yn ystyried agweddau gwerth am arian yn rheolaidd.
		Cydymffuriad statudol ystadau yn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ar gyfer defnydd gweithredol		Mae'r sgôr Cynnal a Chadw Arfaethedig Statudol wedi cynyddu ychydig. Mae'r gwaith profi trydan penodedig yn mynd rhagddo ac rydym yn ymdrechu i gyflymu'r gwaith hwn. Mae profion dyfeisiau trydanol cludadwy'n cael eu datblygu gan bwyll. Mae'r gwaith Asesu Risg Tân yn cael ei gydlyn gan yr Adran Iechyd a Diogelwch, sy'n adolygu'r ddarpariaeth gwasanaeth.
		Archwilio cyfleoedd i ostwng effaith amgylcheddol		Mae'r grŵp Cynaliadwyedd wedi'i ohirio dros dro oherwydd COVID-19.  Mae cost gyffredinol cyfleustodau wedi gostwng yn ystod y chwarter diwethaf, yn bennaf oherwydd bod staff yn gweithio gartref.  Mae'r bil trydan ar gyfer mis Ebrill a mis Mai 2020 10.48% yn is na'r bil ar gyfer yr un cyfnod y llynedd.
		Archwilio ac uchafu ar gyfleoedd ariannu allanol		Buddsoddwyd £60,000 ar draws y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn datblygu prosiectau diogelwch cymunedol.
		Archwilio ac uchafu ar gyfleoedd menter nawdd		Mae cyfleoedd nawdd dal yn cael eu ceisio ar draws yr ardal heddlu, ond mae hyn wedi arafu oherwydd y sefyllfa bresennol o ran COVID-19. Byddwn yn ailgydio yn hyn ar ôl mis Medi fel blaenoriaeth.

		Gweithredu a chynnal cofrestr risg i adnabod a lliniaru ar risgiau i'r SCHTh a'r heddlu		<p>Mae ffocws Tîm Gweithredol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (SCHTh) wedi newid yn sylweddol yn ystod y chwarter hwn er mwyn ymateb i'r bygythiad byd-eang o'r pandemig Coronafeirws.</p> <p>Er bod rhai risgiau pwysig wedi'u codi ganol Mawrth a mis Ebrill, mae amser a'r mesurau a roddwyd mewn grym wedi lleihau'r peryglon sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn sylweddol. Er bod y risgiau hyn dal yn berthnasol ac yn cael eu monitro'n barhaus, ni theimlir eu bod yn peri unrhyw risg sylweddol i'r sefydliad ar hyn o bryd. Roedd y rhan fwyaf o'r peryglon yn ymwneud ag argaeledd adnoddau a lefelau staffio. Er eu bod yn cael eu hystyried yn risg uchel i gychwyn, erbyn hyn, mae'r perygl wedi lleihau neu heb ddigwydd. Ystyriwyd mai'r adran Ystadau a'i swyddogaethau oedd fwyaf mewn perygl, ond â lefelau Coronafeirws gymharol isel yn ardal Dyfed-Powys, lliniarwyd y risgiau hyn ac maen nhw wedi lleihau cymaint erbyn hyn fel nad ydynt yn cael fawr o effaith ar gyflenwi gwasanaeth.</p> <p>Mae sefyllfa'r swyddfa wedi newid yn gyflym dros y misoedd diwethaf, ac mae'r tîm wedi adnabod y risgiau cysylltiedig yn effeithiol ac wedi addasu i fynd i'r afael â nhw a sicrhau ein bod ni dal yn cyflwyno gwasanaethau ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith i gymunedau lleol.</p>
		Defnyddio cynlluniau hyfforddi a datblygu ar gyfer holl staff SCHTh		Mae holl aelodau staff SCHTh wedi cwblhau adolygiadau DAP ar gyfer 2019/20, sy'n cynnwys trafodaethau am anghenion hyfforddi a datblygu. Mae cyllideb benodol gael i gefnogi datblygiad proffesiynol.
Creu cytundebau cydweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau eraill, a chyrrff a phartneriaid plismona eraill	17h	Archwilio cyfleoedd cydweithio yn unol â'r Weledigaeth Blismona ar gyfer Cymru		Mae lle pendant i gydweithio ar agenda Grŵp Plismona Cymru Gyfan. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi adolygu cydweithio i weld pa un ai a yw'r mwyaf yn cael ei wneud o gyfleoedd, a pha un ai a oes modd gwneud mwy. Mae'r adroddiad wedi'i dderbyn ac mae'n cael ei ystyried yn weithredol cyn y bydd Plismona yng Nghymru'n trafod y mater ymhellach fis Medi.
		Archwilio cyfleoedd cydweithio gyda phartneriaid eraill		Cyflwynwyd cynnig yn ddiweddar i'r Swyddfa Gartref ar gyfer datblygu cynnig Strydoedd Mwy Diogel gyda phartneriaid yn ardal Llanelli hyd at werth o tua £250,000. Yr ydym yn aros am ganlyniadau'r cynnig.
		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i graffu ar gytundebau cydweithio.		Daeth y CHTh Llywelyn yn Gadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan ym mis Gorffennaf 2019, ac mae wedi cyflwyno strwythur newydd er mwyn cefnogi craffu ar drefniadau cydweithio. Mae'r ymagwedd newydd hon yn sicrhau ymagwedd thematig a chanolbwyntiedig tuag at graffu ar gydweithio. Mae Blaenraglen Waith mewn grym ar gyfer tymor CHTh fel cadeirydd i graffu ar amrediad o drefniadau cydweithio. Wrth drosglwyddo i SCHTh De Cymru ym mis Gorffennaf 2020, cytunwyd y dylai'r trefniadau presennol aros a'u cryfhau ymhellach.



<p>Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i roi dymuniadau a dyheadau cyfiawn y cyhoedd ar waith</p>	171	<p>Gweithio gyda'r Heddlu i ddatblygu a gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd, gan fodloni'r amcanion ynddo.</p>		<p>Fel tîm Ymgysylltu, yn ystod Ch1, bu'n rhaid inni adolygu ac addasu'r ffordd yr ydym yn gweithredu'n Strategaeth Ymgysylltu. Yr ydym wedi datblygu ffyrdd newydd o estyn allan i'n cymunedau ac wedi addasu'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu - yn ddiigidol.</p> <p>Yn ystod Ch2, byddwn yn datblygu ein Strategaeth Ymgysylltu Digidol a fydd yn ategu'n Strategaeth Ymgysylltu. Mae'r Ymgynghorwyr Polisi ac Ymgysylltu'n parhau i adolygu blaenoriaethau ymgysylltu'n rheolaidd, ochr yn ochr â blaenoriaethau CHTh yn y maes hwn. Yn ystod Ch2, byddwn yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gweddill y flwyddyn yn seiliedig ar ein Strategaeth Ymgysylltu ddiweddaraf.</p> <p>Yr ydym yn parhau i drafod ein gweithgareddau parhaus, a thasgau brys, neu mae'r rhai sy'n gysylltiedig â meysydd ffocws CHTh yn cael eu blaenoriaethu.</p> <p>Mae'r gweithgarwch hwn yn hollbwysig wrth inni barhau i fod yn "anghyflawn" fel tîm, gydag un aelod staff ar absenoldeb salwch tymor hir. Cynhaliom ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn cael gwybod gan y cyhoedd yn uniongyrchol sut y byddai'n well ganddynt ymgysylltu â'r CHTh. Defnyddiom Survey Monkey er mwyn datblygu arolwg a gafodd ei hyrwyddo yng nghylchlythyr CHTh, drwy gyfryngau cymdeithasol, yn y wasg, drwy System Negeseuon Cymunedol Dyfed-Powys, a thrwy gyswllt uniongyrchol â rhanddeiliaid allweddol. Ystyrir canlyniadau'r ymgynghoriad (501 ymateb) wrth ddatblygu ein Strategaeth Ymgysylltu Digidol.</p> <p>Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd wedi'n galluogi i ddatblygu'n gwaith ymgysylltu â dioddefwyr. Roedd 60+ o ymatebwyr naill ai wedi dioddef trosedd / ymddygiad gwrthgymdeithasol neu'n adnabod rhywun a oedd wedi dioddef trosedd / ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dywedasant y byddent yn hapus i rannu eu barn am daith dioddefydd drwy'r system cyfiawnder troseddol â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a phartneriaid. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu cronfa ddata o'r rhai sydd eisieu cymryd rhan mewn gweithgarwch ymgysylltu.</p> <p>O'r ymgynghoriad hwn, mae gennym restr o unigolion sydd eisieu derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau ymgysylltu CHTh hefyd.</p> <p>Ar 11 Mai, cynhaliodd CHTh gyfarfod rhithwir o Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, gan wahodd ein Llysgenhadon Ifainc. Cawsant ofyn cwestiynau'n uniongyrchol i'r Prif Gwnstabl er mwyn craffu ar wasanaethau plismona lleol: Gofynasant (1) sut oedd Heddlu Dyfed-Powys yn plismona twristiaid sy'n teithio i'r ardal, a (2) pa baratodau sy'n cael eu gwneud o ran y strategaeth ar gyfer gadael y cyfnod clo. Drwy gydol y cyfnod clo, yn ystod Ch1, yr ydym wedi parhau i gwrdd â'n llysgenhadon ifainc. Hefyd, cynhaliom grŵp ffocws gydag aelodau'r fforwm ieuencid, lle'r oeddent wedi dod ag unigolyn ifanc arall gyda nhw a oedd wedi cael profiad o gyswllt â'r heddlu, fel ei fod yn medru rhannu ei brofiad a'i farn gyda ni.</p> <p>Yr ydym wedi datblygu ein hymagwedd tuag at ymgysylltu digidol ymhellach drwy gynnal 3 Diwrnod Ymgysylltu Cymunedol Rhithwir yn ystod Ch1. Ar 13 Mai, "ymwelom" â Sir Benfro, gan gynnal cyfarfod cyhoeddus (tua 12 cyfranogwr) a dau gyfarfod un-i-un gyda'r sefydliadau lleol Cymorth a Gofal Pobl a Planed. Ar 10 Mehefin, cynhaliom ddiwrnod ymgysylltu rhithwir ar gyfer preswylwyr Ceredigion, gan gynnwys cyfarfod cyhoeddus (tua 6 cyfranogwr) a chyfarfod un-i-un gyda Rhwydwaith Gwrth-hiliaeth Gorllewin Cymru, sydd wedi'i leoli yng Ngheredigion. Ar 24 Mehefin, cynhaliodd CHTh ddiwrnod ymgysylltu rhithwir ar gyfer Powys, a oedd yn cynnwys cyfarfod cyhoeddus (tua 18</p>
---	-----	---	--	--



			<p>cyfranogwr) a 2 gyfarfod un-i-un gyda'r sefydliadau lleol Llwybrau Newydd a Gwasanaethau Plant Powys. Ym mhob un o'r tri chyfarfod cyhoeddus, roedd Uwch-arolygydd lleol HDP yn bresennol, ac roedd yn medru ymateb i unrhyw gwestiynau gweithredol a oedd gan y cyfranogwyr; yn bennaf ar ymateb yr heddlu i COVID-19.</p> <p>Yn ogystal â'r diwrnodau ymgysylltu rhithwir hyn, ar 27 Mai, cynhaliodd y CHTH gyfarfod ymgynghori cyhoeddus rhithwir yn seiliedig ar Ganolfan Blismona a Dalfa newydd arfaethedig Sir Gaerfyrddin yn ardal Dafen, Llanelli. Rhoddwyd trosolwg i gyfranogwyr o'r gofynion cynllunio a'r gofynion gweithredol, a rhoddwyd cyfle iddynt holi cwestiynau / craffu ar gynlluniau ac ati.</p> <p>Ceir rhagor o wybodaeth am y gweithgarwch ymgysylltu uchod yn rhifyn mis Gorffennaf o gylchlythyr CHTH, Cyswllt Cymunedol: <a href="http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/9551/pcc-newsletter-2020-july-final.pdf">http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/9551/pcc-newsletter-2020-july-final.pdf</a>.</p>
		Datblygu a gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Sengl SCHTh, gan gynnwys cyfleoedd i gymunedau lleol hysbysu a dylanwadu ar benderfyniadau	<p>Fel rhan o Ddiwrnod Ymgysylltu Cymunedol y Comisiynydd yng Ngheredigion, cynhaliodd y Comisiynydd gyfarfod gyda grŵp o ymgyrchwyr gwrth-hiliaeth er mwyn trafod y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, a byddwn yn edrych ar drefnu rhagor o gyfarfodydd gyda'r grŵp yn Ch2. Yn ystod Ch1, yr ydym wedi datblygu Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd â'r Heddlu, yn ogystal â fersiwn hawdd ei ddarllen, ac mae cynlluniau ar waith ar gyfer datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i'r amcanion strategol yn ystod Ch2. Fel y nodir uchod, mae'r tîm Ymgysylltu wedi datblygu ffyrdd newydd ac amgen o sicrhau bod cymunedau'n parhau i gael cyfleoedd i ymgysylltu â'r Comisiynydd. Yn ystod Ch1, cynhaliwyd cyfres o 4 diwrnod ymgysylltu rhithwir – un ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Roedd y diwrnodau ymgysylltu rhithwir yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd gyda phartneriaid, sefydliadau a darparwyr gwasanaeth yn yr ardaloedd, yn ogystal â chyfarfodydd cyhoeddus rhithwir drwy Skype a Zoom. Ymunodd y Comandariaid URS â'r Comisiynydd ar gyfer y cyfarfodydd cyhoeddus rhithwir ar ran yr Heddlu hefyd, er mwyn cynorthwyo ag ateb cwestiynau gan y cyhoedd. Mae'r tîm Ymgysylltu hefyd wedi parhau i ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel ffordd o sicrhau ymgysylltu a chyfathrebu â'r cyhoedd.</p> <p>Fel tîm, yr ydym bob amser yn ceisio dod o hyd i fformatau cyfathrebu amgen er mwyn sicrhau bod y gynulleidfa ehangach yn medru cael mynediad at wybodaeth am waith y Comisiynydd a'i Swyddfa. Yn ystod Ch1 a dros y flwyddyn ddiwethaf, yr ydym wedi gweithio gyda chwmni cyfryngau a fydd yn datblygu cynrychiadau fideo o'n hadroddiad blynyddol ar gyfer 2019/20. Yr ydym hefyd wedi dechrau creu crynodebau wythnosol o waith y Comisiynydd ar gyfer ein llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol sy'n tynnu sylw at rai o'r cyfarfodydd allweddol sydd wedi'u cynnal yn ystod yr wythnos. Hefyd ar gyfryngau cymdeithasol, yr ydym yn parhau i gynnwys clipiau fideo lle bo'n bosibl er mwyn cyfathrebu â'n cynulleidfaedd fel eu bod nhw'n ymgysylltu'n fwy effeithiol â gwaith y Comisiynydd.</p>
		Ymateb i bryderon cymunedol mewn modd prydlon	Dim sylwadau

		Ennyn diddordeb preswylwyr mewn cyfrannu at weithgaredd sicrwydd a chraffu		<p>Yn ystod y pandemig, bu'r ffocws ar gadw ein gwirfoddolwyr yn ddiogel yn ogystal â chadw mewn cysylltiad â nhw a chynnal eu diddordeb.</p> <p>Tra bod ymweliadau corfforol wedi'u hatal, mae SCHTh wedi bod yn hap samplu cofnodol dalfeydd o bell bob yn ail wythnos. Mae 59 cofnod unigol wedi'u hadolygu yn ystod y cyfnod, gydag adroddiadau amserol yn cael eu cyflwyno i'r Pennaeth Dalfeydd er mwyn sicrhau bod pryderon yn cael eu trin yn brydlon. Mae ymweliadau lles anifeiliaid hefyd wedi'u hatal. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu fis Awst.</p> <p>Mae pob un o'n gwirfoddolwyr wedi cael cyfle i gysylltu â SCHTh drwy ffyrdd rhithwir, gan gynnwys trafodaethau ar-lein gyda'r CHTh. Mae SCHTh hefyd wedi ffonio pob gwirfoddolwr sydd heb ymateb i gyfathrebu digidol er mwyn cadw mewn cysylltiad.</p>
		Darparu gwasanaethau effeithiol a hygyrch i ddiodefwrwr a phobl fregus		<p>Ar y cyfan, mae gwasanaethau'n arddangos gwelliant mewn canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Mae dal rhai problemau o ran data Goleudy - mae hyn yn cael ei drin drwy'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad annibynnol a byddant yn ffurfio cynllun gweithredu ar gyfer Goleudy yn ystod 2020/21. Ni ddisgwylir dychweliadau data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Cod Ymarfer Dioddefwyr tan ddiwedd Ch2. Ni dderbyniwyd cwynion ar gyfer unrhyw wasanaeth a gomisiynir gan y CHTh. Adolygwyd prosesau cwyno ar gyfer pob darparwr yn ystod Ch1.</p>
Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer swyddogaethau swydd y Prif Gwnstabl a'r rheini o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth	17j	Fel y nodir yn 17c		
Cyhoeddi gwybodaeth a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gwybodaeth y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ei hystyried yn angenrheidiol i alluogi i bobl sy'n byw yn ardal yr heddlu i fynd i'r afael â pherfformiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl	17k	Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r Gorchymyn Cyrff Lleol Etholedig		<p>Ar ôl gwneud cais ar gyfer y Nod Ansawdd Tryloywder am y 2 flynedd ddiwethaf, a llwyddo i sicrhau'r Dyfarniad, mae prosesau wedi'u rhoi mewn grym ar gyfer sicrhau fod pob adran yn cael ei hadolygu a'i diweddarau yn ôl yr angen o fewn yr amserlenni a roddir, boed hynny'n fisol, chwarterol neu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac ati. Mae gan unigolion penodedig gyfrifoldeb dros adrannau gwahanol o'r wefan er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys y wybodaeth berthnasol ddiweddaraf. Y Swyddog Cymorth Cydymffurfiaeth a Pherfformiad sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod gofynion Cyhoeddi Statudol mewn trefn ac yn cael eu dilyn. Mae'r Swyddog Cymorth Cydymffurfiaeth a Pherfformiad yn cynnal archwiliad llawn o'r holl adrannau bob mis Medi, cyn i'r cais gael ei gyflwyno i CoPaCC (Cymharu Comisiynwyr Heddlu a Throsedd) ar gyfer asesu ym mis Rhagfyr, gyda'r Dyfarniadau'n cael eu gwneud ym mis Chwefror. Ceir manylion llawn am y Gofynion Cyhoeddi Statudol ar ein gwefan.</p>
		Cyhoeddi gwybodaeth mewn fformat hygyrch a hawdd ei gyrraedd		<p>Mae'r Nod Ansawdd Tryloywder yn dangos ansawdd y wybodaeth sydd ar gael ar y wefan a rhwyddineb hygyrchedd i bawb.</p>

		Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â Safonau'r Gymraeg		Ar 17 Mawrth 2020, cysylltodd Comisiynydd y Gymraeg â ni er mwyn esbonio sut yr oedd yn bwriadu rheoleiddio safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith yng ngoleuni lledaeniad coronafeirws (COVID-19). Ymrwymodd i ohirio trin cwynion ac ymchwiliadau sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Ystyriwyd bod symud i ffwrdd wrth drefniadau arferol yn arddangos hyblygrwydd yn ystod cyfnod o argyfwng cenedlaethol ac amgylchiadau digynsail. Bydd rhai o'r arferion rheoleiddiol yn cael eu hatal a bydd gwaith arall yn cael ei ohirio am gyfnod amhendant. Adolygodd SCHTh y perygl i'n swyddfa i'r graddau y gallai unrhyw faterion salwch sy'n ymwneud â COVID-19 o fewn yr adran gyfieithu effeithio ar ein gallu i gyhoeddi gwybodaeth yn Gymraeg. Rhoddwyd mesurau mewn grym i liniaru'r risg, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau cyfieithu allanol a staff o fewn SCHTh. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth cyfieithu wedi parhau i weithio yn ôl yr arfer yn ystod y chwarter hwn, gan fodloni cytundebau lefel gwasanaeth.
		Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o waith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl yn rhagweithiol		Cyhoeddir datganiadau i'r wasg yn lleol ac o fewn cyhoeddiadau cenedlaethol ar straeon newyddion allweddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a gomisiynir. Canolbwyntir ar yr ymateb cadarnhaol yn ystod y pandemig, cydlynu gwaith cyfiawnder troseddol, gweithredu fel llais y dioddefwyr a sicrhau arian ychwanegol sylweddol ar gyfer gwasanaethau yn arbennig. Cynhwysir gwasanaethau yng nghynhyrchiad fideo adroddiad blynyddol CHTh. Mae'r wefan wedi'i diweddarau'n llawn â gwybodaeth am wasanaethau a chynhwysir dolen o fewn y Pecyn Gwybodaeth ar gyfer Dioddefwyr. Mae rhagor o wybodaeth hyrwyddo'n cael ei datblygu.
Cydydffurfio â'r holl geisiadau ffurfiol rhesymol gan y Panel i fynychu eu cyfarfodydd	17l	Presenoldeb chwarterol mewn cyfarfodydd Panel Heddlu a Throseddau		Mae'r CHTh wedi mynd i bob cyfarfod Panel Heddlu a Throseddau, ynghyd â swyddogion statudol – y Pennaeth Staff a'r Prif Swyddog Ariannol. Cyfarfodydd rhithwyr oedd y ddau gyfarfod diwethaf a drefnwyd.
		Darparu dogfennau i'r Panel Heddlu a Throseddau yn unol â'u ceisiadau		Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Panel Heddlu a Throseddau a SCHTh wedi sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth a dogfennau yn brydlon yn unol â'u ceisiadau. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau'n annog ymgysylltiad ac yn croesawu cynrychiolwyr o'r Panel Heddlu a Throseddau ar fforymau eraill megis y Bwrdd Atebolrwydd Plismona, y Bwrdd Comisiynu a'r Cydbwyllgor Archwilio.
		Cyswllt rheolaidd rhwng SCHTh a'r Panel Heddlu a Throseddau i gefnogi ymgymryd â dyletswyddau statudol		Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Panel Heddlu a Throseddau a SCHTh wedi cefnogi ymgymryd â dyletswyddau statudol ar gyfer y ddwy ochr. Mae trafodaethau diweddar wedi cynnwys y cynllun blynyddol ar gyfer craffu.
Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol	17m	Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol i'r Panel ar y ffordd y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn		Yn ystod Ch1, yr ydym wedi gweithio ar yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2019/20, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020.

		cyflawni yn erbyn yr amcanion sydd wedi'u gosod o fewn y Cynllun		
Monitro'r holl gwynion a wneir yn erbyn swyddogion a staff, a bod yn gyfrifol am gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl	17n	Trin cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl		O'r tair cwyn a dderbyniwyd, anfonwyd un ohonynt at bob SCHTh ac mae hi wedi'i chyfeirio at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn dilyn cyngor ganddynt - yr ydym yn disgwyl cyfarwyddyd pellach gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Yr ydym yn disgwyl eglurhad gan yr achwynydd mewn perthynas â'r ail gŵyn. Cofnodwyd canlyniad 'Dim Gweithredu Pellach' ar gyfer y drydedd gŵyn; gofynnodd yr achwynydd am adolygiad gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, a farnodd o blaid SCHTh.
		Cynnal trosolwg dros achosion o gwynion yn unol â'r hyn a ofynnir gan aelodau unigol o'r cyhoedd		Ni dderbyniodd SCHTh unrhyw achosion goruchwylio newydd yn ystod y chwarter hwn.
		Craffu ar y ffordd y mae'r Heddlu yn trin cwynion		Er nad oes gwaith craffu penodol wedi digwydd yn ystod y chwarter hwn, e.e. hap samplu, mae'r broses Cais am Adolygiadau wedi galluogi SCHTh i gael mwy o gysylltiad ym mhroses yr Adran Safonau Proffesiynol a chynnwys ffurflenni, a gwnaed argymhellion i'r Adran Safonau Proffesiynol yn ystod y chwarter hwn o ganlyniad i hynny, e.e. dileu gwybodaeth ychwanegol o'u ffurflen a chynghor ynghylch darparu'r ffurflen Cais am Adolygiad i'r swyddog y gwnaed cwyn amdano. Mae cyfarfod rhwng Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu a Chyrff Plismona Lleol wedi'i drefnu er mwyn trafod craffu ar y ffordd y mae'r heddlu'n trin cwynion, a ddylai ychwanegu eglurder i'r maes gwaith hwn a sicrhau cynllun clir o waith craffu wrth symud ymlaen.
		Sicrhau bod systemau a phrosesau wedi'u sefydlu yn barod ar gyfer rôl gynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau o fewn cwynion fel yr amlinellir yn Neddff Heddlu a Throseddau 2017		Noder: O'r 10 Cais am Adolygiad a dderbyniwyd – dylai'r Adran Safonau Proffesiynol fod wedi cyfeirio un at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Gan hynny, mae 9 wedi'u hystyried gan SCHTh fel y corff adolygu perthnasol. Yr ydym yn disgwyl gwybodaeth bellach gan yr achwynydd mewn perthynas ag un adolygiad cyn y byddwn mewn sefyllfa i symud ymlaen.
Ni ddylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau gyfyngu ar annibyniaeth weithredol yr heddlu	18	Datblygu adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol		Diweddarwyd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn ystod y chwarter diwethaf.
Mynediad at wybodaeth,	19	Mae'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn		Diweddarwyd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn ystod y chwarter diwethaf.

swyddogion a staff		rhoi manylion trefniadau rhannu gwybodaeth		
		Trin gwybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data		<p>Mae 1 achos o dorri rheoliadau diogelu data wedi'i gofnodi'r chwarter hwn. Anfonwyd e-bost at y cyfeiriad anghywir, fodd bynnag, cafodd ei adalw'n syth cyn i'r derbynnydd ei agor, felly ni achoswyd niwed i'r gwrthrych data ac nid oedd angen adrodd am y mater.</p> <p>Fel corfforaeth undyn, mae SCHTh yn ddarostyngedig i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac yn gyfrifol amdanynt. Dim ond 7 cais Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y chwarter hwn. Roedd gan SCHTh y wybodaeth a geisiwyd ar gyfer 2 o'r ceisiadau hyn. Cyfeiriwyd 2 arall at wefan SCHTh, lle'r oedd y wybodaeth eisoes wedi'i chyhoeddi. Anfonwyd 3 ymlaen at yr heddlu gyda chaniatâd y ceisydd oherwydd gallent fod wedi dal y wybodaeth.</p> <p>Oherwydd y pandemig, mae'r rhan fwyaf o aelodau staff wedi bod yn gweithio gartref yn ystod y chwarter hwn. Atgoffwyd pob aelod staff am bwysigrwydd diogelwch gwybodaeth, a rhoddwyd hyfforddiant ar-lein iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Helpodd hyn i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar-lein a chanlyniadau ei gyfaddawdu, ac amlinellodd y ffaith bod gan bawb ohonom rôl i'w chwarae mewn diogelu'r Heddlu a'n swyddfa a sicrhau nad yw'r gwasanaeth a gyflenwir yn cael ei gyfaddawdi.</p>
Cyflenwi diogelwch cymunedol a gostwng trosedd	20a	Datblygu a gweithredu Fframwaith Llywodraethu ar gyfer Comisiynu a Phartneriaethau		<p>Ar hyn o bryd, mae dogfennau comisiynu'n cael eu diweddarau ar gyfer 20/21. Byddant yn cael eu rhannu ar wefan CHTh yn ystod Ch2. Mae darpariaeth gwasanaeth, cyfarfodydd themar BCTLI a chyllideb wedi'i chomisiynu yn gyson â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu presennol, sy'n gyson â blaenoriaethau strategol y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Rhannwyd blaenoriaethau a chynlluniau gwaith PDC â'r Swyddog Polisi er mwyn hysbysu datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd. Effaith darpariaeth gwasanaeth yn erbyn cyflenwi'r Cynllun oedd ffocws yr Adroddiad Blynyddol diweddar, ac mae'n cael ei ddatblygu fel rhan o adroddiad ehangach sy'n dangos cynnydd yn erbyn y Cynllun. Adolygwyd aelodaeth a chylch gorchwyl y Bwrdd Ymgynghorol Comisiynu ac mae aelodau newydd wedi'u croesawu i'r grŵp. Mae dyddiadau cyfarfod wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cyfarfu'r Bwrdd yn ystod Ch1 er mwyn adolygu craffu ar wasanaethau a gyflawnwyd gan SCHTh yn ystod COVID-19, ac fe'u sicrhawyd am gadernid y gweithgarwch. Yn ogystal, adolygodd a chymeradwyodd y Bwrdd y broses cyllid grant ar gyfer 2020/21. Adolygwyd y gofrestr gytundebau ar ddechrau'r flwyddyn er mwyn dadansoddi effaith gohirio etholiad CHTh. Mae gan bob cytundeb y dewis i estyn ac mae cynlluniau mewn grym i ddiogelu ar draws newidiadau Telerau. Mae blaenoriaethau BCTLI ar gyfer 2019/20 wedi'u cario ymlaen ar hyn o bryd oherwydd ffocws arbennig y Bwrdd ar COVID-19. Bydd angen diwygio hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn a dylai fod yn gyson â datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd.</p>

		Comisiynu gwasanaethau i gefnogi diogelwch cymunedol a gostwng trosedd		Mae'r CHTh yn darparu dros 60% o gyfanswm y gyllideb gomisiynu o arian craidd, gyda thraean yn dod o grant dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae SCHTh hefyd wedi sicrhau £140,000 o arian penodol COVID-19 ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o fewn yr ardal, a £55,000 arall ar gyfer darpariaeth Ymgynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol dros gyfnod o 2 flynedd. Cyfarfu'r CHTh a'r CA â rheolwyr PDC a rheolwyr GTA ar ddechrau'r cyfnod clo er mwyn adolygu'r sefyllfa. Sefydlwyd sianeli cyfathrebu parhaus er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol. Mae'r CA wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r BCI er mwyn adolygu rôl Comisiynwyr Heddlu a Throseddu o ran llywodraethu ac ariannu GTA. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cydnabod llacio rhai telerau ac amodau oherwydd y pandemig COVID-19, er enghraifft, cyflwyno gwasanaethau dioddefwyr dros y ffôn a thrwy ddulliau rhithwir yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn dysgu'r gwersi o'r newid ymagwedd hwn, gyda rhai agweddau'n parhau fel arfer da. Mae'r CC wrthi'n adolygu'r Protocol Rhannu Gwybodaeth er mwyn galluogi Goleudy i rannu data mewn perthynas â dioddefwyr sydd wedi derbyn canlyniad yn y llys gyda'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol ar gyfer dioddefwyr er mwyn gwneud cynnig gwybodus o gyfiawnder adferol yn unol â gofynion CHTh. Mae cyfiawnder adferol yn faes sydd angen mwy o ffocws a thrafodaeth bellach ar lefel Cymru gyfan.
Partneriaethau Diogelwch Cymunedol	20b	Amherthnasol yng Nghymru		
Grantiau gostwng trosedd ac anhrefn	20c	Datblygu a gweithredu fframwaith ar gyfer darparu grantiau trosedd ac anhrefn		Mae proses penderfyniadau ariannu newydd wedi'i datblygu, sy'n cipio'r holl gamau sy'n cael eu prosesu wrth gyflenwi'r ddarpariaeth grantiau trosedd ac anhrefn. Bydd y prosesau newydd yn cael eu rhannu â'r Heddlu ar gyfer ceisiadau mewnol.
		Darparu grantiau gostwng trosedd ac anhrefn yn 2019/20		Buddsoddwyd £60,000 ar draws y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn datblygu prosiectau diogelwch cymunedol. Mae £140,000 yn cael ei fuddsoddi ar draws yr 14 ardal TPB gyda dyraniad o £10,000 tuag at brosiectau cymunedol trwy'r broses Ariannu Cyfranogol, sy'n cael ei chynnal gan y timoedd plismona bro a phartneriaid lleol.
		Gwerthuso grantiau gostwng trosedd ac anhrefn i bennu enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad		Mae proses penderfyniadau ariannu newydd wedi'i datblygu, sy'n cipio'r holl gamau sy'n cael eu prosesu wrth gyflenwi darpariaeth grantiau trosedd ac anhrefn. Bydd y prosesau newydd yn cael eu rhannu â'r Heddlu ar gyfer ceisiadau mewnol.
Cytundebau cydweithio	20d	Fel y nodir yn 17f		



Cyfrifoldeb ehangach ar gyfer cyfoethogi cyflenwi cyfiawnder troseddol yn yr ardal	20e	Monitro perfformiad yr holl wasanaethau a gomisiynir, gan sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn darparu gwerth am arian		Mae pob cyfarfod monitro cytundebau ac adroddiadau perfformiad Ch1 yn digwydd o fewn pythefnos cyntaf Ch2, felly nid yw rhai mesurau'n berthnasol yn Ch1. Cynlluniwyd blaenamserlen o ymweliadau darparwyr, ond effeithiwyd ar hyn yn sylweddol gan gyfyngiadau COVID-19. Ar hyn o bryd, mae'r Swyddog Cymorth Comisiynu'n gweithio gyda'r Tîm Ymgysylltu er mwyn datblygu cynllun o ymweliadau rhithwir i gychwyn cyn gynted â phosibl. Ymwelwyd â rhai darparwyr yn ystod Ch1 fel rhan o ddiwrnodau ymgysylltu CHTh. Adolygwyd aelodaeth a chylch gorchwyl y Bwrdd Ymgynghorol Comisiynu ac mae aelodau newydd wedi'u croesawu i'r grŵp. Mae dyddiadau cyfarfod wedi'u trefnu ar gyfer flwyddyn i ddod. Cyfarfu'r Bwrdd yn ystod Ch1 er mwyn adolygu craffu ar wasanaethau a gyflawnwyd gan SCHTh yn ystod COVID-19, ac fe'u sicrhawyd am gadernid y gweithgarwch. Yn ogystal, adolygodd a chymeradwyodd y Bwrdd y broses cyllid grant ar gyfer 2020/21.
		Cyfraniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i agenda Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan		Bu'r CHTh yn allweddol o ran symud trafodaethau Cymru Gyfan ymlaen ar ddechrau'r cyfnod clo. Rhoddwyd adroddiadau manwl gan HDP i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan, a oedd yn cynnwys meysydd risg, gweithgarwch ac ymateb o ran COVID-19. Canolbwyntiodd cyfarfod y BCTLI fis Ebrill ar yr ymateb arbennig i COVID-19 a pheryglon sy'n dod i'r amlwg. Gwaith partneriaeth cadarnhaol iawn a thrafodaethau rhagweithiol mewn perthynas â'r ymateb ar y cyd i gynllunio mewn perthynas â'r pandemig.
		Cyfrifoldebau portffolio cenedlaethol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu		Y Bwrdd Plismona Digidol ac fel rhan o hyn mae'r Comisiynydd yn aelod o'r Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Bwrdd Gweithlu Trawsnewidiol</li> <li>• Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu</li> <li>• Bwrdd Cwmni TGCh yr Heddlu</li> <li>• Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan</li> <li>• Y bwrdd rhaglen cronfa ddata gorfodi'r gyfraith cenedlaethol</li> <li>• Y Bwrdd Adolygu Diogelu Unedig Sengl, lle y mae'n ymgymryd â'r rôl Swyddog Cyfrifol Sengl dos Gymru</li> <li>• Bwrdd Plismona Cymru</li> <li>• Plismona yng Nghymru</li> <li>• Bwrdd Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel</li> <li>• Grŵp Cyfeirio Proffesiynol Cwrs Rheoli Strategol</li> <li>• Grŵp Hawliau Dynol a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth (Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu)</li> </ul>